**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 5 Medi 2023 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C L Philpott | M S Tribe | C A Holley |
| Y V Jardine | A J Jeffery | J W Jones |
| M W Locke | | |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
T Beddow

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Alyson Anthony | Aelod y Cabinet dros Les |
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lee Cambule | Rheolwr y Gwasanaeth Trechu Tlodi |
| Amy Hawkins | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): V A Holland, P R Hood-Williams a/ac E T Kirchner

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd Chris Holley fuddiant personol.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Awst 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

5 **Monitro Perfformiad**

Ychwanegodd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal ac Amy Hawkins, Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi sylwadau i friffio'r Panel ar yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Gorffennaf 2023.

Pwyntiau i'w trafod:

- Derbyniodd Tŷ Bôn-y-maen arolygiad gwych ym mis Gorffennaf 2023. Roedd y Panel yn falch o glywed hyn.
- Mae pob tîm yn y Ganolfan Ddinesig bellach wedi symud draw i Neuadd y Ddinas gan helpu i wella cydweithio.
- Holodd y Panel a oedd y lleoliad newydd ar gyfer y Pwynt Mynediad Cyffredin yn addas i'r diben, fel problemau gydag acwsteg. Clywodd y Panel fod staff wedi derbyn clustffonau gwrthsain gwell i helpu gyda hyn a bydd swyddogion yn edrych ar ddefnyddio byrddau sain i wella hyn.
- Gofynnodd y Panel am faterion staffio a recriwtio a chlywsant ei fod yn her gan fod diffyg gweithwyr cymdeithasol ledled Cymru.
- Trafododd y Panel iechyd meddwl a lles staff a chlywsant fod pob tîm yn y Gyfarwyddiaeth yn y broses o lunio asesiad lles a chynlluniau gweithredu unigol.
- Darpariaeth gofal cartref allanol - nododd y Panel y bydd yr awdurdod yn ailgomisiynu gwasanaethau yn ystod y 12 mis nesaf. Trafodwyd deiliadaeth isel barhaus mewn rhai cartrefi gan greu ansefydlogrwydd ariannol i rai darparwyr a bod angen edrych ar hyn.
- O ran cartrefi gofal allanol lle mae pryderon cynyddol, holodd y Panel a oedd opsiwn i rai preswylwyr gael eu trosglwyddo i gartrefi eraill. Clywsant ei bod yn well i iechyd a lles pobl pe na baent yn cael eu symud gan mai dyma yw eu cartref.
- Trafododd y Panel sut mae'r awdurdod yn codi mwy o daliadau trydydd parti am ddarpariaeth gofal allanol. Dywedodd Aelod y Cabinet nad oes gan yr awdurdod bolisi ar gyfer hyn ar hyn o bryd ond ei fod yn bwriadu datblygu un.
- O ran diogelu, nododd y Panel fod nifer cynyddol o atgyfeiriadau, a gofynnodd am enghreifftiau o rai o'r problemau hyn. Clywodd y Panel ddadansoddiad o'r math o atgyfeiriad y gellir ei gynnwys mewn adroddiadau monitro perfformiad yn y dyfodol.
- Gofynnodd y Panel am wybodaeth ynghylch Amddifadu o Ryddid, gan gynnwys faint o bobl sydd wedi bod drwy'r broses yn y 12 mis diwethaf a gwybodaeth am y math o hawlydd. Cytunwyd y bydd hwn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad i'r Panel ym mis Hydref ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.
- Gofynnodd y Panel am gymorth cyfreithiol a sut mae'r adran yn trefnu hynny drwy gontract allanol. Clywywyd bod mwy o alw a chostau uwch. Cytunodd y Panel a swyddogion fod angen cadw llygad ar hyn.

Camau Gweithredu:

- Gwybodaeth am fathau o atgyfeiriadau diogelu i'w cynnwys mewn adroddiadau monitro perfformiad yn y dyfodol.
- Cynnwys yr wybodaeth am amddifadu o ryddid y gofynnir amdani yn adroddiad mis Hydref i'r Panel.

## 6 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - 'Cyfle wedi'i golli' - Mentrau Cymdeithasol

Roedd Aelod y Cabinet dros Les, Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi a Rheolwr y Gwasanaethau Trechu Tlodi yn bresennol i friffio'r Panel.

Pwyntiau i'w trafod:
- Holodd y Panel am y diffiniad a ddefnyddir ar gyfer 'tlodi'. Bydd diffiniad gwybodus yn cael ei adolygu fel rhan o adnewyddu'r Strategaeth Trechu Tlodi.
- Gofynnodd y Panel am restr o fentrau cymdeithasol. Clywyd y bydd ymarfer mapio yn cael ei gynnal i wella data sydd gan yr awdurdod am fentrau cymdeithasol. Bydd y Panel yn derbyn diweddariad ar gynnydd unwaith y bydd cynllun gweithredu ar waith ac ymarfer mapio wedi'i gwblhau.
- Gofynnodd y Panel am eglurhad ar linell yn yr adroddiad ynghylch un awdurdod yn gweithio gyda 60% o fentrau cymdeithasol. Eglurodd swyddogion nad yw 60% o fentrau cymdeithasol yn gweithio y tu allan i'w hardal leol, mae canran lai yn gweithio'n rhanbarthol ac mae rhai yn gweithio'n genedlaethol.
- Holodd y Panel sut y mesurir perfformiad ar gyfer mentrau cymdeithasol y mae'r awdurdod yn gweithio gyda nhw ac yn rhoi grantiau iddynt, ac a ydynt yn cael eu harchwilio. Clywodd y Panel fod gan yr Awdurdod ffyrdd o fesur canlyniadau a pherfformiad ar gyfer grantiau unigol, ond ni fyddai hyn yn canolbwyntio ar berfformiad fel menter gymdeithasol. Bydd yr adran yn datblygu fframwaith perfformiad ar gyfer mentrau cymdeithasol yn y dyfodol.
- Trafododd y Panel sut mae'r adroddiad yn sôn am 'fwriad a chyfeiriad strategol' a sut aeth GIG Cymru ati sawl blwyddyn yn ôl i lunio dogfen o gwmpas hyn. Holodd y Panel ai dyma'r math o fframwaith y mae'r awdurdod yn bwriadu ei gymhwyso gyda phartneriaid a chlywodd mai'r nod yw bod yr holl bartneriaid yn gweithio tuag at yr un blaenoriaethau a chamau gweithredu.

Camau Gweithredu:
- Ychwanegu 'Diweddariad ar Gynnydd gydag Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Cyfle wedi'i Golli' at gynllun gwaith y dyfodol (Ionawr 2024).

## 7 Cynllun Waith 2023-24

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben yn 5.25pm